**CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 3ydd Ebrill 2019 yn y Swyddfeydd Dinesig, Canolfan Gymunedol Ffordd Wellington, y Rhyl, yn dechrau am 6.00pm.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorydd A. J. Rutherford (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, A. R. James, A. S. Johnson, B. Jones, K. R. Jones, Mrs P. M. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Miss S. L. Roberts, Ms V. Roberts a T. Thomas.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

## 116. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr J. Ball, Ms J. Hughes a Miss C. L. Williams.

## 117. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) AR GYFER 2019/20

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu atodlen o daliadau a wnaed.

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 695 | Sioned Graham-Cameron | 575.86 | Gwasanaethau Cyfieithu |
| 696 | HSBC | 14.00 | Taliadau Banc 17eg Ionawr i 16eg Chwefror 2019 |
| 700 | BT | 128.16 | Rhentu Llinell |
| 476 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 916.66 | Swyddog Apelio Rhan-amser – Taliad 12 o 12 |
| 697 | Cyngor Sir y Fflint | 4,214.51 | Cyfraniadau Pensiwn ac Ariannu Diffyg Chwefror 2019 |
| 698 | CThEM | 2,649.35 | Didyniadau PAYE Chwefror 2019 |
| 701 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 6,885.13 | Cyflogau Staff Mawrth 2019 |
| 699 | Gunsmoke Communications | 1,440.00 | Ffioedd Rheoli Digwyddiadau Chwefror 2019 |
| 704 | BT | 151.68 | Rhentu Llinell a Thaliadau Cynnal a Chadw |
| | | | |
| | **Cyfanswm taliadau** | **£16,975.35** | |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

## 118. AWURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017 ac yn unol â'r rheoliadau ariannol a fabwysiadwyd gan y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau afreolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen).

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr | Disgrifiad o'r Gwasanaeth | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 708 | Gunsmoke Communications | Cennin Pedr ar gyfer Digwyddiad Dydd Gwyl Dewi | 15.00 |
| 709 | Elusen Maer Bae Colwyn | Cyfraniad ar gyfer Digwyddiad ar 27 Ebrill 2019 | 15.00 |
| 710 | Elusen Maer Cyngor Tref Rhuthun | 2 x docyn i ddigwyddiad 12fed Ebrill 2019 | 20.00 |
| 711 | Cyngor Sir Ddinbych | Cyfraniad at waith adfer lloches bws | 10,095.00 |
| 712 | Cyngor Sir Ddinbych | Atgyweiriadau i dafarn y Lorne – difrod o'r goleuadau | 282.24 |
| 713 | Cyfrif Elusen Rhuddlan | 2 x docyn i noson codi arian pysgod a sglodion 26ain Ebrill 2019 | 20.00 |
| 714 | Clwb Rygbi'r Rhyl | Blaendal llogi adeilad | 60.00 |
| | | **Cyfanswm Atodlen B** | **£10,507.24** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen ar gyfer ei thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *atal y Rheolau Sefydlog er mwyn i Glerc y Dref fedru ymateb fel mater o frys.*

## 119. DATGANIAD TALIADAU ARIAN MÂN: 1af HYDREF 2018 – 31ain MAWRTH 2019

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn gofyn am gymeradwyaeth yr aelodau i wariant arian mân yn ystod y cyfnod chwe mis uchod, atodlen daliadau ynghlwm fel atodiad A.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r taliadau canlynol.*

| Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau | Swm |
|---|---|
| Cerdyn cydymdeimlo i'r Cynghorydd J Chamberlain-Jones | £0.99 |
| Hidlwyr Dŵr Britta | £7.49 |
| Tâp ar gyfer peiriannau parcio | £4.50 |
| Tâp ar gyfer peiriannau parcio (Nadolig) | £4.50 |
| Gwobrau Cystadleuaeth Ffenestri Nadolkig | £45.94 |
| Fframiau tystysgrifau | £18.00 |
| Lluniaeth Cyngor y Nadolig | £71.48 |
| Lluniaeth swyddfa/cyfarfod | £23.33 |
| Fframiau tystysgrifau | £24.50 |
| Llefrith | £1.09 |
| Sellotape | £0.79 |
| | |
| **Cyfanswm** | **£202.61** |

**120. GOHEBIAETH: PROBLEMAU TAFFIG VALE ROAD A GRANGE ROAD**

Ymhellach i gofnod rhif 72 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7fed Tachwedd 2018, adroddodd y Cadeirydd bod yr uchod wedi ei dderbyn gan Mr Peter Lea, Prif Beiriannydd Cyngor Sir Ddinbych – Rheoli Traffig (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen).

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr ohebiaeth.*

**121. EITEM WYBODAETH I'R AELODAU: NOSON ELUSEN Y MAER**

Atgoffodd Clerc y Dref yr aelodau i ymateb i ebost y Swyddog Cymorth Dinesig a Gweinydol yn eu gwahodd i ddigwyddiad y Mader yn Neuadd y Dref ar 27ain Ebrill.

**122. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried gweddill yr eitem hon yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

**123. AROLWG O'R CYNLLUN TREF – BLAENORIAETHU DYHEADAU'R AELODAU**

Ymhellach i gofnod rhif 147 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 20fed Chwefror 2019, cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) ar 38 o ddyheadau a gyflwynwyd i'w hystyried dros oes y cyngor, i'w cynnwys yn y cynllun datblygiadol.

Dywedodd Clerc y Dref bod y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol (CSG) wedi cwblhau asesiad rhagarweiniol o'r syniadau a gyflwynwyd ac wedi dileu chwech oherwydd y tybid nad oedd gan y Cyngor Tref y gallu ymarferol i'w cyflawni'n llwyddiannus, gan adael 32 yr oedd angen eu blaenoriaethu.

***PENDERFYNWYD*** *bod yr aelodau'n cwblhau'r ffurflen ddyheadau a ddosbarthwyd ac adnabod eu pum blaenoriaeth uchaf personol i'r Pwyllgor CSG i'w sgorio a symud ymlaen â nhw, a dylid eu cyflwyno cyn hanner dydd ar ddydd Gwener 5ed Ebrill.*

**124. SEFYDLIAD – DYFARNIAD CYFLOG COSTAU BYW**

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) ar weithredu cytundeb cyflog 2019 (isafswm 2%).

Adroddodd Clerc y Dref, oherwydd newidiadau i bwyntiau colofn gyflog Cyngor Sir Ddinbych a bandiau gradd cyflog, byddai un o swyddi'r Cyngor Tref ond yn derbyn cynnydd mewn cyflog o 1.3% neu 3.35%.

Lle'r oedd hyn wedi digwydd yng Nghyngor Sir Ddinbych, roeddynt wedi cymhathu i'r radd uwch i sicrhau bod holl staff yn derbyn y lleiafswm o 2% a gytunwyd.

***PENDERFYNWYD*** *cymhathu'r swydd i SCP 22 a derbyn y cynnydd 3.35%, gyda'r dair swydd arall yn derbyn 2% o gynnydd a gymeradwywyd.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *atal y Rheolau Sefydlog er mwyn i Glerc y Dref fedru ymateb fel mater o frys.*

**125. CANOLFAN GYMUNEDOL TYNEWYDD**

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) a dywedodd bod llythyr (a gymeradwywyd gan yr Is-bwyllgor Asesu Rtosg ac ynghlwm fel atodiad A) wedi ei anfon at Gymdeithas Gymunedol y Rhyl (RCA).

O dderbyn ateb gan yr RCA, yna byddai'r llythyr a baratowyd i grwpiau defnyddwyr y ganolfan (ynghlwm fel atodiad B) yn cael ei anfon i gasglu gwybodaeth gan y grwpiau i ffurfio rhan o arolwg y Cyngor Tref.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cyngor Tref yn aros am ymateb gan yr RCA cyn anfon y llythyr at y grwpiau defnyddwyr.*

**126. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, bu i'r Cadeirydd ddirwyn y cyfarfod i ben.

Cadeirydd: …………………...

Dyddiad: ………………………